# Help os ydych chi’n sâl neu’n anabl

## Budd-dal a chymorth y gallwch eu cael os ydych chi’n sâl neu’n anabl

Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **3** | Cyflwyniad |
| **3** | Budd-daliadau y gallwch eu cael os ydych chi'n sâl |
| **4** | Tâl Salwch Statudol |
| **6** | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| **9** | Budd-daliadau y gallwch eu cael os oes gennych gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd |
| **10** | Taliad Annibyniaeth Personol |
| **11** | Lwfans Gweini |
| **13** | Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant |
| **15** | Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol |
| **18** | Cynllun Deddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979 |
| **18** | Cynllun Mesothelioma Ymledol 2008 |
| **19** | Taliadau Niwed Trwy Frechiad |
| **22** | Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog |
| **23** | Pensiwn Anabledd Rhyfel |
| **24** | Gofalwyr |
| **27** | Dweud wrthym pan fydd rhywbeth yn newid |
| **27** | Mynd i'r ysbyty neu gartref gofal |
| **29** | Help i ddod o hyd i waith neu i aros mewn gwaith |
| **32** | Byw a gweithio dramor |
| **32** | Help os ydych ar incwm isel |
| **35** | Help gyda chostau tai |
| **36** | Help gyda budd-daliadau a gwasanaethau eraill |

# Cyflwyniad

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cael y wybodaeth a'r help cywir pan fyddwch yn mynd yn sâl neu'n anabl. Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am y budd-daliadau y gallwch eu cael, a sut i wneud cais. Ceir gwybodaeth hefyd am fathau eraill o gymorth a all fod o ddefnydd i chi.

# Budd-daliadau y gallwch eu cael os ydych chi'n sâl

Os ydych chi'n sâl, mae'r help y gallwch ei gael yn dibynnu ar b'un a ydych mewn gwaith ar hyn o bryd.

| **Rheswm…** | **Gallwch gael…** | **Gweler tudalen…** |
|---|---|---|
| Mae gennych swydd, ond na allwch weithio am eich bod yn sâl | Tâl Salwch Statudol | 4 |
| Allwch chi ddim cael Tâl Salwch Statudol | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth | 6 |
| Rydych chi'n hunangyflogedig, ond allwch chi ddim gweithio am eich bod yn sâl | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth | 6 |
| Rydych chi'n ddi-waith, ond allwch chi ddim chwilio am waith am eich bod yn sâl | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth | 6 |

# Tâl Salwch Statudol

## Beth yw Tâl Salwch Statudol?

Os na allwch weithio am eich bod yn sâl, efallai y bydd eich cyflogwr yn talu Tâl Salwch Statudol i chi.

Tâl Salwch Statudol yw'r lleiafswm y mae'n rhaid i gyflogwyr ei dalu yn ôl y gyfraith. Gallwch gael Tâl Salwch Statudol o'r pedwerydd diwrnod y byddwch yn rhy sâl i weithio. Fodd bynnag, dim ond o'r pedwerydd 'diwrnod cymhwyso' y byddwch yn absennol o'r gwaith y caiff ei dalu. Diwrnodau cymhwyso yw'r diwrnodau y byddech fel arfer yn eu gweithio - mae'n rhaid iddo fod yn ddiwrnod mewn wythnos o leiaf.

Os bydd eich cyflogwr yn talu tâl salwch galwedigaethol neu dâl salwch cwmni i chi a'i fod yn fwy na Thâl Salwch Statudol, yna nid oes rhaid iddo dalu Tâl Salwch Statudol i chi hefyd.

### A allaf gael Tâl Salwch Statudol?

Er mwyn cael Tâl Salwch Statudol mae'n rhaid eich bod:

- yn gyflogedig,
- wedi bod yn sâl am o leiaf bedwar neu fwy o 'ddiwrnodau cymhwyso' yn olynol, ac
- yn ennill o leiaf y 'Terfyn Enillion Is'.

Gallwch ganfod beth yw'r Terfyn Enillion Is ar-lein.

Ewch i:
**www.hmrc.gov.uk**

Cyhyd â'ch bod wedi treulio rhywfaint o amser yn gweithio, gallech gael Tâl Salwch Statudol o hyd. Ond efallai na fyddwch yn ei gael os ydych wedi bod yn cael rhai budd-daliadau eraill fel Lwfans Mamolaeth neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Os nad ydych yn siŵr a allwch gael Tâl Salwch Statudol, dylech ofyn i'ch cyflogwr.

Efallai y gallwch gael Cymhorthdal Incwm hefyd ar ben unrhyw Dâl Salwch Statudol y gallwch fod yn ei gael. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

## Sut y gallaf wneud cais am Dâl Salwch Statudol?

Pan fyddwch yn mynd yn sâl, dylech ddweud wrth eich cyflogwr cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i chi ddweud wrtho cyn i chi fod yn absennol oherwydd salwch am saith diwrnod, neu gallai eich cyflogwr wrthod talu Tâl Salwch Statudol i chi.

Os byddwch yn sâl am rhwng un a saith diwrnod, efallai y bydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen hunanardystio (SC2) i'ch cyflogwr. Os nad oes ganddo ffurflen, gallwch gael ffurflen SC2 ar-lein i'w rhoi i'ch cyflogwr.

Ewch i:
**www.hmrc.gov.uk/forms/sc2.pdf**

Os byddwch yn sâl am fwy na saith diwrnod, bydd angen i chi ddangos datganiad meddygol i'ch cyflogwr. Gallwch gael datganiad meddygol gan eich meddyg fel arfer. Gelwir datganiadau meddygol yn nodiadau ffitrwydd, nodiadau salwch neu'n dystysgrifau meddygol hefyd.

Gallwch gael Tâl Salwch Statudol am hyd at 28 wythnos. Os byddwch yn rhy sâl i weithio ar ôl 28 wythnos, dylech gael ffurflen SSP1W gan eich cyflogwr er mwyn helpu i gefnogi cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar-lein.

Ewch i:
**www.gov.uk/statutory-sick-pay**

### Faint y gallaf ei gael?

Gallwch ganfod faint o Dâl Salwch Statudol y gallech ei gael drwy fynd ar-lein.

Ewch i:
**www.gov.uk/statutory-sick-pay**

### Sut ydw i'n cael Tâl Salwch Statudol?

Caiff eich Tâl Salwch Statudol ei dalu yn yr un ffordd â'ch cyflog arferol.

### Beth os na all fy nghyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol i mi?

Os na all eich cyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol i chi, bydd yn rhaid iddo roi ffurflen (SSP1W) i chi yn egluro pam. Pan gewch y ffurflen hon, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i ofyn ynghylch gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

## Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

### Beth yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn rhoi help ariannol i bobl na allant weithio oherwydd salwch neu anabledd. Mae wedi disodli Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm a delir oherwydd salwch neu anabledd.

Mae dau fath o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth:

- yn seiliedig ar gyfraniadau: os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu
- yn gysylltiedig ag incwm: os nad ydych yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau ac nad oes gennych ddigon o incwm neu gynilion.

Tra byddwch yn cael y lwfans, gallwch gael help gan ymgynghorydd personol sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol. Gallwch eich helpu i fanteisio ar amrywiaeth eang o wasanaethau, wedi'u cynllunio i'ch helpu a'ch paratoi i symud i waith addas pan fyddwch yn barod.

Os bydd eich salwch neu anabledd yn effeithio'n ddifrifol ar eich gallu i weithio, gall y lwfans roi cymorth ariannol ychwanegol i chi.

## A allaf gael lwfans Cyflogaeth a Chymorth?

Gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os oes gennych salwch neu anabledd sy'n effeithio ar eich gallu i weithio, ac:

- rydych i ffwrdd o'r gwaith neu allan o waith
- rydych yn hunangyflogedig
- rydych yn gweithio i gyflogwr ond nid ydych yn gallu cael Tâl Salwch Statudol, neu
- rydych wedi bod yn cael Tâl Salwch Statudol, ond mae wedi dod i ben bellach.

Am saith diwrnod cyntaf eich salwch, fel arfer dim ond dweud wrthym pam eich bod yn sâl y bydd yn rhaid i chi ei wneud. Gelwir hyn yn 'hunanardystio'. Ar ôl hynny, bydd yn rhaid i chi gael datganiad meddygol gan eich meddyg.

Os oes gennych salwch terfynol, gweler tudalen 14.

## Sut y gallaf wneud cais?

Ewch i:
**www.gov.uk/benefits-adviser**

Ffôn: **0800 055 6688**
Ffôn testun: **0800 023 4888**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm

## Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn gwneud cais?

Ni chewch unrhyw arian am dri diwrnod cyntaf eich cais. Gelwir y rhain yn 'ddiwrnodau o aros'. Mewn rhai achosion, efallai na fydd diwrnodau o aros yn gymwys, er enghraifft os ydych eisoes wedi cael diwrnodau o aros fel rhan o gais cynharach am fudd-daliadau neu gyfnod o Dâl Salwch Statudol.

Ar ôl hyn, caiff y rhan fwyaf o bobl gyfradd sylfaenol yn ystod y 'cyfnod asesu'. Efallai y bydd cyfradd wahanol yn gymwys os oes gennych bartner; gelwir hwn yn 'gyfradd cyplau'.

### Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe bai'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r unigolyn arall hwn yn bartner i chi.

Yn ystod y cyfnod asesu byddwn yn penderfynu p'un a ydych yn gymwys i barhau i gael y lwfans. Gallwn benderfynu ar hyn ar sail eich salwch neu anabledd, neu efallai y bydd angen i chi gwblhau holiadur neu fynd i gael asesiad.

Byddwn yn asesu eich salwch neu anabledd er mwyn gweld i ba raddau rydych yn gallu gweithio. Yna, byddwn yn ystyried a yw'n rhesymol i chi gymryd camau i ddod o hyd i waith addas.

Os byddwch yn gwrthod cael yr asesiad, neu os na fyddwch yn cymryd rhan yn llawn, gallai hyn effeithio ar eich hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Ar ôl yr asesiad, os byddwch yn dal yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwch yn symud i'r 'prif gam' ac yn cael swm uwch.

# Budd-daliadau y gallech eu cael os oes gennych gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd

I wneud cais am fudd-daliadau anabledd, nid oes gwahaniaeth a ydych yn gweithio ai peidio.
Mae budd-daliadau anabledd yn dibynnu ar:

- eich oedran
- pa mor ddifrifol yw eich anabledd
- sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch, neu
- sut y daethoch yn anabl.

| **Os ydych…** | **Gallwch gael…** | **Gweler tudalen…** |
|---|---|---|
| Yn anabl a rhwng 16 a 64 oed | Taliad Annibyniaeth Personol | 10 |
| Yn anabl a thros 65 oed | Lwfans Gweini | 11 |
| Yn anabl ac o dan 16 oed | Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant | 13 |
| Yn anabl o ganlyniad i ddamwain ddiwydiannol neu glefyd a achosir gan waith | Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol | 15 |
| Yn anabl oherwydd brechiad | Taliad Niwed drwy Frechiad | 19 |
| Yn aelod o'r Lluoedd Arfog, a anafwyd ar ôl 6 Ebrill 2005 | Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog | 22 |
| Yn gyn-filwr a aeth yn anabl cyn 6 Ebrill 2005 | Pensiwn Anabledd Rhyfel | 23 |

# Taliad Annibyniaeth Personol

## Beth yw Taliad Annibyniaeth Personol?

Budd-dal yw Taliad Annibyniaeth Personol i'ch helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol y gallai fod yn rhaid i chi dalu amdanynt gennych oherwydd cyflwr iechyd hirdymor neu anabledd.

Dylai eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd fod yn ddigon difrifol fel bod angen help arnoch i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol o hyd, hyd yn oed os nad ydych yn cael yr help sydd ei angen arnoch.

Gallwch hefyd gael Taliad Annibyniaeth Personol os ydych chi'n cael anawsterau wrth symud o gwmpas.

## A allaf gael Taliad Annibyniaeth Personol?

Gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol os ydych rhwng 16 a 64 oed a bod un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae angen help arnoch i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd, neu
- rydych yn ei chael hi'n anodd iawn i symud o gwmpas, neu mae angen help arnoch i wneud hynny.

Gallwch wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol unrhyw bryd os oes angen help arnoch i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd, neu os ydych yn cael problemau gyda'ch symudedd (neu'r ddau). Fodd bynnag, er mwyn cael Taliad Annibyniaeth Personol, mae'n rhaid eich bod wedi bod angen help gyda'r gweithgareddau hyn ers o leiaf dri mis a'i bod yn debygol y bydd angen help arnoch am o leiaf naw mis arall.

Gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol p'un a ydych mewn gwaith ai peidio. Mae'n fudd-dal di-dreth ac nid yw eich incwm na'ch cynilion yn effeithio arno.

Os oes gennych salwch terfynol, gweler tudalen 14.

### Faint o Dâl Salwch Statudol y gallaf ei gael?

Mae dwy ran i Daliad Annibyniaeth Personol:

- rhan 'byw o ddydd i ddydd' - os bydd angen help arnoch gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd fel ymolchi a gwisgo neu gyfathrebu, a
- rhan 'symudedd' - os byddwch yn cael problemau wrth symud o gwmpas, os bydd angen help arnoch i symud o gwmpas neu i gynllunio a mynd ar deithiau.

Os byddwch yn gymwys i gael Taliad Annibyniaeth Personol, cewch arian ar gyfer un rhan neu'r ddwy ran. Mae'r swm y byddwch yn ei gael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen arnoch.

### Sut y gallaf wneud cais?

Er mwyn dechrau eich cais am Daliad Annibyniaeth Personol:

Ffôn: **0800 917 2222**
**Ffôn testun**: **0800 917 7777**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm

## Lwfans Gweini

### Beth yw Lwfans Gweini?

Gall Lwfans Gweini helpu gyda chostau ychwanegol y gallai fod yn rhaid i chi dalu amdanynt os ydych yn 65 oed neu'n hŷn a bod gennych gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd.

Dylai eich anabledd fod yn ddigon difrifol fel bod angen rhywun i helpu i ofalu amdanoch. Gallwch gael Lwfans Gweini o hyd, hyd yn oed os nad ydych yn cael yr help sydd ei angen arnoch.

## A allaf gael Lwfans Gweini?

Gallwch gael Lwfans Gweini os:

- ydych yn 65 oed neu'n hŷn
- na allwch gael Taliad Annibyniaeth Personol, ac
- eich bod wedi bod angen help gyda gofal personol, neu rywun i'ch goruchwylio er eich diogelwch eich hun neu ddiogelwch rhywun arall, ers o leiaf chwe mis.

Ni fydd unrhyw gynilion neu incwm sydd gennych yn effeithio ar eich cais fel arfer.

Os oes gennych salwch terfynol, gweler tudalen 14.

## Faint o Lwfans Gweini y gallaf ei gael?

Mae'r swm y byddwch yn ei gael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen arnoch.

## Sut y gallaf wneud cais?

Ewch i: :
**www.gov.uk/browse/disabilities**

Ffôn: **0845 605 6055**
Ffôn testun: **0845 604 5312**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm

# Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer plant

## Beth yw Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer plant?

Gall Lwfans Byw i’r Anabl helpu gyda chostau ychwanegol os yw eich plentyn o dan 16 oed a bod ganddo gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd.

Dylai anabledd eich plentyn fod yn ddigon difrifol fel bod angen rhywun i helpu i ofalu amdano. Gallwch gael Lwfans Byw i’r Anabl ar ei gyfer, hyd yn oed os nad yw’n cael yr help sydd ei angen arno.

Efallai y gallwch hefyd gael y lwfans ar gyfer eich plentyn os oes ganddo anawsterau cerdded neu os oes angen rhywun arno i’w oruchwylio pan fydd yn yr awyr agored.

## A allaf gael Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer fy mhlentyn?

Gallwch gael Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer eich plentyn os yw o dan 16 oed a bod un o’r canlynol yn berthnasol:

- mae angen help arno gyda gofal personol neu rywun i’w oruchwylio er ei ddiogelwch ei hun neu ddiogelwch rhywun arall, neu
- ni all weithio, mae’n ei chael hi’n anodd iawn i gerdded, mae angen help arno i symud o gwmpas neu mae angen rhywun arno i’w oruchwylio pan fydd yn yr awyr agored.

Mae’n rhaid iddo fod wedi bod angen help gyda gofal personol neu ei fod wedi cael problemau’n cerdded ers o leiaf dri mis. Mae’n rhaid ei bod yn debygol y bydd angen help arno gyda gofal personol, neu y bydd yn cael problemau’n cerdded, am o leiaf chwe mis arall hefyd.

Mae’n fudd-dal di-dreth ac nid yw eich incwm na’ch cynilion yn effeithio arno.

Os oes gan eich plentyn salwch terfynol, gweler tudalen 14.

## Faint o Lwfans Byw i’r Anabl y gallaf ei gael ar gyfer fy mhlentyn?

Mae dwy ran i’r Lwfans Byw i’r Anabl::

- rhan ‘gofal’ - os oes angen help ar eich plentyn gyda gofal personol neu oruchwyliaeth, a
- rhan ‘symudedd’ - os yw eich plentyn yn cael anawsterau wrth gerdded, mae angen help arno i symud o gwmpas neu mae angen rhywun arno i’w oruchwylio pan fydd yn yr awyr agored.

Gallwch gael arian ar gyfer un rhan yn unig, neu’r ddwy ran. Mae’r swm y byddwch yn ei gael yn seiliedig ar faint o help sydd ei angen ar eich plentyn.

Disodlodd y Taliad Annibyniaeth Personol y Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer oedolion rhwng 16 a 64 oed ar 8 Ebrill 2013.

Bydd Lwfans Byw i’r Anabl yn parhau ar gyfer plant o dan 16 oed ac ar gyfer y bobl hynny sydd eisoes yn cael y budd-dal os oeddent yn 65 oed neu’n hŷn ar 8 Ebrill 2013.

## Sut y gallaf wneud cais?

Ewch i:
**www.gov.uk/browse/disabilities**

Ffôn: **0845 712 3456**
Ffôn testun: **0845 722 4433**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm

## Beth os oes gennyf salwch terfynol?

Mae gennym reolau arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol ac nad oes disgwyl iddynt fyw am fwy na chwe mis. Mae’r rheolau hyn yn golygu y caiff eich cais ei drin yn gyflymach, ni fydd angen i chi fynd am asesiad wyneb yn wyneb a chaiff eich budd-dal ei dalu’n syth i chi.

Gallwch wneud cais o dan reolau arbennig ar gyfer:

Lwfans Gweini

Lwfans Byw i'r Anabl

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, a

Taliad Annibyniaeth Personol.

# Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

## Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Gallwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os ydych yn anabl o ganlyniad i ddamwain neu glefyd a achoswyd:

- gan waith, neu
- tra roeddech ar gynllun neu gwrs hyfforddiant cyflogaeth cymeradwy.

Cwmpesir dros 70 o afiechydon. Rhai o'r afiechydon mwyaf cyffredin yw:

- asthma
- broncitis cronig ac emffysema
- byddardod galwedigaethol
- niwmoconiosis (clefyd ar yr ysgyfaint yn sgil anadlu llwch mwynol), a
- cyflwr y bysedd gwyn.

Caiff clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos hefyd eu cynnwys, fel:

- niwmoconiosis (asbestosis)
- mesothelioma ymledol
- carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint gydag asbestosis, a
- tewychu pliwraidd ymledol unochrog neu ddwyochrog.

## A allaf gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Efallai y gallwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os:

- cawsoch y clefyd neu os digwyddodd y ddamwain yn sgil gwneud mathau penodol o waith, a
- oeddech yn cael eich cyflogi ym Mhrydain Fawr pan gawsoch y clefyd neu pan ddigwyddodd y ddamwain.

Bydd angen i'r rhan fwyaf o bobl gael archwiliad meddygol. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu pa mor ddifrifol yw eich cyflwr neu'ch anabledd a pha mor hir y bydd yn para.

Ni allwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oeddech yn hunangyflogedig pan gawsoch y ddamwain ddiwydiannol neu pan gawsoch y clefyd.

## A allaf gael help arall?

Os oes angen gweini cyson arnoch a'ch bod yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, efallai y gallwch hefyd gael:

- Lwfans Gweini Cyson, a
- Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol.

Gellir talu Lwfans Enillion Is os ydych wedi colli enillion oherwydd eich anabledd yn sgil y ddamwain ddiwydiannol neu'r clefyd. Efallai y gallwch gael Lwfans Enillion Is p'un a ydych yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ai peidio.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/industrial-injuries-disablement-benefit**

## Sut y gallaf wneud cais?

Gallwch wneud cais mewn dwy ffordd.

Lawrlwytho ffurflen ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/industrial-injuries-disablement-benefit/how-to-claim**

Cysylltu â’r ganolfan sy’n cwmpasu’r ardal rydych yn byw ynddi. Byddwn yn anfon ffurflen gais atoch i’w llenwi a’i dychwelyd atom.

Yr Alban, Gogledd-orllewin Lloegr, Dwyrain Lloegr, Llundain a De-ddwyrain Lloegr.

Ffôn: **0845 603 1358**

Swydd Efrog a’r Humber, Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr a Chymru.

Ffôn: **0845 758 5433**

Mae un rhif ffôn testun ar gael ble bynnag rydych yn byw.

Ffôn testun: **0845 608 8551**

## Faint y gallaf ei gael?

Mae’r swm a gewch yn dibynnu ar lefel eich anabledd.

# Cynllun Deddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979

Efallai y byddwn yn talu cyfandaliad i chi os oes gennych un o'r clefydau canlynol:

- niwmoconiosis (asbestosis)
- byssinosis
- mesothelioma ymledol
- tewychu pliwraidd ymledol dwyochrol, neu
- carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint gydag asbestosis neu dewychu pliwraidd ymledol dwyochrol.

I gael taliad o dan y cynllun hwn, mae prif amodau'r hawliad fel a ganlyn:

- rhaid i'ch clefyd sy'n gysylltiedig â llwch fod wedi'i achosi gan eich gwaith
- rydych wedi gwneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol am un o'r clefydau a restrir
- mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 12 mis i'r penderfyniad i ddyfarnu Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- ni allwch gymryd, neu nid ydych wedi cymryd, camau sifil oherwydd bod eich cyn-gyflogwr wedi rhoi'r gorau i fasnachu, ac
- nid ydych wedi dwyn achos llys yn erbyn cyflogwr, nac wedi cael iawndal ganddo, mewn perthynas â'r clefyd.

# Cynllun Mesothelioma Ymledol 2008

Gallwn dalu cyfandaliad i chi os oes gennych fesothelinoma ymledol ac nad ydych wedi cael, neu nad oes gennych hawl i gael taliad o dan gynllun 1979.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys:

- pobl hunangyflogedig, a
- pobl na chafodd y clefyd drwy eu gwaith (er enghraifft, os oeddech yn golchi dillad a halogwyd gan asbestos).

Ni allwch gael taliad os nad oeddech yn byw yn y DU pan gawsoch eich amlygu i asbestos.

Os na allwch gael taliad o dan gynllun 1979 am Fesothelioma Ymledol, byddwn yn eich ystyried yn awtomatig o dan gynllun 2008. Ni allwch gael taliad o dan y ddau gynllun.

### Sut y gallaf wneud cais?

Gallwch wneud cais mewn dwy ffordd.

Lawrlwytho ffurflen ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/cymraeg**
a chwiliwch am **'pwc1'**

Ffôn: **0845 603 1358**
**Ffôn testun**: **0845 608 8551**

## Cynllun Taliad Niwed drwy Frechiad

### Beth yw Taliad Niwed drwy Frechiad?

Mae hwn yn un taliad di-dreth i'ch helpu i dalu am gostau ychwanegol y gallwch eu hwynebu os cewch anabledd difrifol o ganlyniad i frechiad.

Nid oes ots os oes gennych gynilion neu arian arall yn dod i mewn, gallwch gael Taliad Niwed drwy Frechiad o hyd.

## A allaf gael Taliad Niwed drwy Frechiad?

Efallai y gallwch gael Taliad Niwed drwy Frechiad os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i frechiad ar gyfer un o'r clefydau canlynol:

- Difftheria
- Tetanws
- Y pas (pertwsis)
- Polio
- Y frech goch
- Clwy'r pennau
- Brech goch yr Almaen (rwbela)
- TB (twbercwlosis)
- Y frech wen (hyd at 1 Awst 1971)
- HIB (Haemophilus Influenzea math B)
- Llid yr ymennydd C
- Haint niwmococol
- Feirws papiloma dynol (HPV), neu
- Influenza Pandemig A (H1N1) 2009 (ffliw'r moch), os cawsoch frechiad ar gyfer H1N1 rhwng 10 Hydref 2009 a 31 Awst 2010.

Gallwch hefyd gael Taliad Niwed drwy Frechiad os oes gennych anabledd difrifol a achoswyd gan un o'r canlynol:

- bod eich mam wedi cael unrhyw un o'r brechiadau hyn pan oedd yn feichiog gyda chi, neu
- eich bod wedi bod yn gorfforol agos at rywun y rhoddwyd brechiad polio iddo drwy'r geg.

Er mwyn gallu gwneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad, rhaid i chi hefyd:

- fod wedi cael brechiad yn y Deyrnas Unedig neu Ynys Manaw, neu fel rhan o driniaeth feddygol y lluoedd arfog tra roeddech dramor, ac

- rydych yn gwneud cais rhwng eich pen-blwydd yn ddwy oed a’ch pen-blwydd yn 21 oed, neu o fewn chwe blynedd i’r dyddiad y cawsoch y brechiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid i chi fod wedi cael y brechiad pan oeddech o dan 18 oed, oni bai:

- ei fod ar gyfer polio, rwbela, meningitis C, feirws papiloma Dynol neu Influenza Pandemig (H1N1), neu
- y rhoddwyd y brechiad ar adeg pan gafwyd nifer o achosion yn y DU neu Ynys Manaw.

Os yw unigolyn wedi marw, gellir gwneud cais am Daliad Niwed drwy Frechiad o hyd ar ei ran. Fodd bynnag, mae angen i’r cais gael ei wneud rhwng beth a fyddai wedi bod yn ddiwrnod ei ben-blwydd yn ddwy oed ac yn 21ain oed, neu o fewn chwe blynedd iddo gael y brechiad.

## Faint yw’r Taliad Niwed drwy Frechiad

Un taliad o £120,000 ydyw. Nid oes rhaid i chi dalu treth ar y swm hwn, ond gallai effeithio ar faint y gallwch ei gael o unrhyw fudd-daliadau eraill.

## Sut y gallaf wneud cais?

Gallwch wneud cais mewn dwy ffordd.

Lawrlwytho ffurflen ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/vaccine-damage-payment**

Cysylltu â’r Uned Taliad Niwed drwy Frechiad..

Ffôn: **01772 899 944**
Ffôn testun: **0845 604 5312**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm, a dydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm

# Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

## Beth yw Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?

Budd-dal yw Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog i'ch helpu i dalu'r costau ychwanegol y gallai fod yn rhaid i chi dalu amdanynt oherwydd anaf difrifol yn sgil gwasanaeth milwrol.

## A allaf gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?

Mae personél y lluoedd arfog a chyn-filwyr sy'n cael Taliad Incwm Gwarantedig o 50% neu uwch drwy Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn gymwys i gael y taliad.

## A fydd Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog yn effeithio ar fy mudd-daliadau eraill?

Os ydych yn cael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, ni allwch gael:

- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Byw i'r Anabl, neu
- Lwfans Gweini.

## Faint o Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog y gallaf ei gael?

Mae Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog yr un faint â'r canlynol:

- cyfraddau gwell Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y rhan byw o ddydd i ddydd a'r rhan symudedd, neu
- cyfraddau uwch Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y rhan gofal a'r rhan symudedd.

Gallwch ganfod faint y gallech ei gael drwy fynd ar-lein.

Ewch i: **www.veterans-uk.info/arrmed_forces_indep_payment.html**

### Sut y gallaf wneud cais?

Gallwch wneud cais mewn dwy ffordd.

Ewch i:
**www.veterans-uk.info**

Ffôn: **0800 169 2277**
Ffôn testun: **0800 169 3458**

8.15am i 5.15pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.15am i 4.30pm ar ddydd Gwener

## Pensiwn Anabledd Rhyfel

### Beth yw Pensiwn Anabledd Rhyfel?

Taliad di-dreth neu bensiwn wythnosol a delir i gyn-filwyr sydd wedi cael eu hanafu, eich anablu neu wedi cael salwch yn sgil eu gwasanaeth yn y lluoedd arfog yw Pensiwn Anabledd Rhyfel.

### A allaf gael Ail Bensiwn y Wladwriaeth?

Efallai y gallwch gael Pensiwn Anabledd Rhyfel os ydych wedi cael eich anafu, eich anablu neu'n cael salwch:

- yn sgil gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi, neu
- yn ystod adeg rhyfel, ac
- nad ydych yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog EM mwyach.

Rhaid i'ch anabledd fod wedi'i achosi cyn 6 Ebrill 2005. Os cafodd ei achosi gan wasanaeth yn Lluoedd Arfog EM ar 6 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny, dylech wneud cais o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog.

Efallai y gallwch gael ychwanegiadau neu lwfansau eraill hefyd. Gall cynghorydd egluro'r cymysgedd o fudd-daliadau eraill, sy'n dibynnu ar eich amgylchiadau eich hun.

### Sut y gallaf wneud cais?

Gallwch wneud cais mewn dwy ffordd.

Ewch i:
**www.veterans-uk.info**

Ffôn: **0800 169 2277**
Ffôn testun: **0800 169 3458**

8.15am i 5.15pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.15am i 4.30pm ar ddydd Gwener

## Gofalwyr

Os oes angen gofalwr arnoch i ofalu amdanoch, nid oes rhaid iddo fod yn rhywun sy'n ofalwr yn ôl ei waith. Gallai fod yn bartner, yn berthynas, yn ffrind neu'n gymydog i chi.

### Lwfans Gofalwr

Mae Lwfans Gofalwr ar gyfer pobl sy'n gofalu am rywun sy'n anabl, p'un a yw'n perthyn iddo, neu'n byw gydag ef, ai peidio. Efallai y gall gofalwr gael Lwfans Gofalwr os yw'n 16 oed neu'n hŷn, ac yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am berson sy'n cael:

- Lwfans Gweini, neu
- Taliad Annibyniaeth Personol (ar y gyfradd safonol neu uwch ar gyfer y rhan byw o ddydd i ddydd), neu
- Lwfans Byw i'r Anabl (ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf ar gyfer gofal), neu
- Lwfans Gweini Cyson (ar y gyfradd uchaf arferol neu'n uwch gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, neu
- cyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel.

Holwch eich ymgynghorydd budd-daliadau cyn i'ch gofalwr wneud cais am unrhyw fudd-daliadau. Gallai ei gais effeithio ar eich budd-dal.

## Sut y gallaf wneud cais?

Ewch i:
**www.gov.uk/carers-allowance**

Cysylltu â'r Uned Lwfans Gofalwr.

Ffôn: **0845 608 4321**
Ffôn testun: **0845 604 5312**

Dydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm, dydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm

## Credyd Gofalwr

Credyd Yswiriant Gwladol yw Credyd Gofalwr a all helpu i ddiogelu hawl gofalwr i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Efallai y gall gofalwr gael Credyd Gofalwr os yw'n gofalu am un neu fwy o bobl am gyfanswm o 20 awr neu fwy bob wythnos.

Rhaid bod pob unigolyn y mae'n gofalu amdano naill ai yn ei gael:

- Lwfans Gweini
- Taliad Annibyniaeth Personol (ar y gyfradd safonol neu uwch ar gyfer y rhan byw o ddydd i ddydd)
- Lwfans Byw i'r Anabl (ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf ar gyfer y rhan gofal)
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini Cyson (ar y gyfradd uchaf arferol neu'n uwch gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol), neu
- bod wedi cael Tystysgrif Gofal wedi'i llofnodi gan weithiwch iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol.

Gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol yw rhywun sy’n gofalu am anghenion gofal yr unigolyn sy’n cael gofal. Gallai fod yn feddyg, yn nyrs ardal neu’n weithiwr cymdeithasol.

## Sut y gallaf wneud cais?

Lawrlwytho ffurflen gais ar-lein.

Ewch i:
**www.gov.uk/carers-credit**

Cysylltu â’r Uned Lwfans Gofalwr.

Ffôn: **0845 608 4321**
Ffôn testun: **0845 604 5312**

Dydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm, dydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gredydau ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/national-insurance-credits/eligibility**

## Sut y caiff fy mudd-dal ei dalu i mi?

Byddwn yn talu pob budd-dal yn uniongyrchol i mewn i’ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu swyddfa’r post.

## Dweud wrthym pan fydd rhywbeth yn newid

Os ydych yn cael pensiwn neu fudd-daliadau a bod eich amgylchiadau'n newid, rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith. Er enghraifft, dywedwch wrthym os:

- byddwch yn symud tŷ (neu os bydd pobl eraill yn symud i mewn i'ch tŷ neu'n gadael)
- byddwch yn newid y cyfrif rydym yn talu eich pensiwn neu fudd-daliadau iddo
- byddwch yn dechrau gweithio neu'n newid nifer yr oriau rydych yn eu gweithio
- bydd angen mwy neu lai o gymorth arnoch o ganlyniad i'ch anabledd neu os byddwch yn mynd i'r ysbyty, neu
- byddwch yn cael mwy neu lai o fudd-daliadau eraill.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddweud wrthym am newid, gwnewch hynny beth bynnag. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallech golli allan ar arian y dylech ei gael. Neu, gallech gael gormod o arian, a bydd angen i chi ei dalu'n ôl.

## Mynd i'r ysbyty neu gartref gofal

Dylech ddweud wrthym os byddwch yn mynd i'r ysbyty neu gartref gofal oherwydd gallai hyn effeithio ar y budd-daliadau rydym yn eu talu i chi neu eich partner.

### Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Os byddwch yn mynd i'r ysbyty, dylai eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth aros yr un fath am hyd at 52 wythnos, cyhyd ag y byddwch yn dal i fodloni'r telerau o ran ei gael.

Ar ôl 52 o wythnosau, gall effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

## Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Gofalwr

Fel arfer, byddwn yn rhoi'r gorau i dalu eich budd-dal pan fyddwch wedi bod yn yr ysbyty am 28 diwrnod os byddwch yn cael:

- Lwfans Gweini,
- y rhannau gofal neu symudedd o Lwfans Byw i'r Anabl (fel oedolyn), neu
- rhannau byw o ddydd i ddydd neu symudedd Taliad Annibyniaeth Personol.

Os yw eich plentyn yn cael Lwfans Byw i'r Anabl a'i fod o dan 16 oed, fel arfer, bydd yn dod i ben ar ôl iddo fod yn yr ysbyty am 12 wythnos.

Fodd bynnag, efallai y byddwn yn talu'r budd-daliadau hyn os ydych chi neu eich plentyn yn glaf preifat a'ch bod yn talu heb help gan y GIG. Efallai y byddwn yn talu'r budd-daliadau hyn hefyd os ydych yn gwneud cais am fod gennych chi neu eich plentyn salwch terfynol ac rydych chi neu eich plentyn mewn hosbis.

Fel arfer, byddwn yn rhoi'r gorau i dalu eich budd-dal os byddwch yn mynd i gartref gofal a'ch bod yn cael:

- Lwfans Gweini
- rhan gofal Lwfans Byw i'r Anabl, neu
- rhan byw o ddydd i ddydd Taliad Annibyniaeth Personol.

Fodd bynnag, efallai y byddwn yn talu'r budd-daliadau hyn os ydych yn talu am eich holl gostau cartref gofal eich hun ac nad ydych yn cael unrhyw help tuag at y costau hyn gan eich cyngor lleol na thrwy arian cyhoeddus.

Os ydych chi'n cael Lwfans Gofalwr, gall yr arian hwnnw ddod i ben cyn gynted ag y byddwch chi, neu'r unigolyn anabl rydych yn gofalu amdano, yn mynd i'r ysbyty.

Os bydd unrhyw un o'r budd-daliadau hyn yn dod i ben, efallai y byddwch chi neu eich partner hefyd yn rhoi'r gorau i gael arian ychwanegol mewn budd-daliadau eraill, fel:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Tai
- Credyd Pensiwn, neu
- Credydau Treth.

### Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Os ydych yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, nid oes angen i chi ddweud wrthym os byddwch yn mynd i'r ysbyty gan na fydd yn hyn yn effeithio ar eich budd-dal.

Os ydych yn cael Lwfans Gweini Cyson a'ch bod yn mynd i'r ysbyty, rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted ag y byddwch wedi bod yn yr ysbyty am 28 o ddiwrnodau.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/browse/benefits/disability**

## Help i ddod o hyd i waith neu i aros mewn gwaith

Os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i weithio oherwydd eich salwch neu anabledd, gallwch siarad â ni. Gall ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith siarad â chi am ba waith rydych am ei gael a'r ffordd orau i chi gael gwaith.

Mae gennym hefyd Ymgynghorwyr Gwaith i'r Anabl a all eich helpu i ddod o hyd i swydd, i feithrin sgiliau newydd ac i ddweud wrthych am gyflogwyr sy'n croesawu pobl anabl yn eich ardal. Gallant hefyd eich helpu i aros mewn gwaith. Os ydych yn poeni y gallech golli eich swydd oherwydd salwch neu anabledd, cysylltwch ag ymgynghorydd cyn gynted â phosibl.

Gall eich ymgynghorydd:

- cynnal 'asesiad cyflogaeth' i gael gwybod am eich sgiliau a'r swyddi y mae gennych ddiddordeb ynddynt
- rhoi gwybod i chi am swyddi sy'n cyfateb i'ch sgiliau
- eich helpu i gael hyfforddiant er mwyn gwella eich sgiliau, a
- rhoi manylion i chi am grwpiau anabledd lleol.

Mae rhaglenni a grantiau i'ch helpu i ddod o hyd i waith neu i aros mewn gwaith. Gofynnwch i'n hymgynghorwyr am:

- Mynediad i Waith - arian i'ch helpu i wneud eich swydd os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd.
- Dewis Gwaith - help i gael swydd a'i chadw os ydych yn anabl ac yn ei chael hi'n anodd gweithio neu os oes angen llawer o gymorth arnoch i wneud swydd ar eich pen eich hun.
- Treialon gwaith - cyfle i roi cynnig ar swydd am hyd at 30 diwrnod a pharhau i gael budd-daliadau.
- Hyfforddiant Preswyl - help os ydych yn oedolyn anabl di-waith ac nad oes cyrsiau hyfforddiant addas ar gael yn lleol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
**www.gov.uk/browse/benefits/disability**

## Chwilio am waith

Os ydych yn chwilio am waith, gallwch chwilio am swyddi ar-lein.

Ewch i:
**www.gov.uk/chwilio-am-swydd**

Ffôn: **0845 606 7890**

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm

## Beth os na allaf weithio'n llawn amser

Mae llawer o opsiynau pan ddaw at ddod o hyd i waith. Yn ogystal â gweithio'n llawn amser gallech ystyried y canlynol.

- Gwaith rhan amser. Gallech weithio nifer penodol o oriau neu ddyddiau bob wythnos i gyd-fynd â phethau eraill rydych yn eu gwneud.

- Rhannu swydd. Weithiau, gall dau unigolyn rannu un swydd llawn amser, fel bod y ddau ohonoch yn gweithio oriau rhan amser.
- Gweithio yn ystod y tymor. Gallech beidio â gweithio yn ystod gwyliau ysgol.
- Gwaith gwirfoddol. Gallech wneud gwaith di-dâl i ddysgu mwy am swydd benodol a dysgu sgiliau newydd. Gallai hyn eich helpu i gael swydd â thâl.
- Gwaith neu oriau hyblyg. Gall hyn olygu dewis yr amseroedd dechrau a gorffen gwaith, neu weithio oriau hirach ar rai dyddiau fel y gallwch gymryd mwy o amser i ffwrdd.
- Hunangyflogaeth. Efallai y gallwch weithio i chi'ch hun. Ond, mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i chi ddelio â phethau fel talu eich treth a'ch Yswiriant Gwladol eich hun yn hytrach na chael cyflogwr i wneud hyn i chi.
- Gwaith asiantaeth. Gallech weithio am gyfnod penodol o amser mewn swydd llawn amser neu ran amser. Gall hyn olygu cymryd lle rhywun pan fydd i ffwrdd o'r gwaith. Mae hyn hefyd yn cael ei alw'n 'tempio'.

## A allaf weithio a chael budd-daliadau hefyd?

Gallwch gael Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol p'un a ydych yn gweithio ai peidio.

Os ydych yn cael Lwfans Gofalwr, gallwch ennill hyd at swm penodol, ar ôl lwfansau - nid oes cyfyngiad ar yr oriau maent yn eu gweithio.

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Tai neu Gredyd Pensiwn, efallai y bydd eich enillion yn cael eu hystyried.

# Byw a gweithio dramor

## A allaf gael budd-daliadau os wyf yn byw dramor?

Efallai y gallwch gael rhai budd-daliadau os ydych yn byw neu'n gweithio dramor.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/benefits-if-you-are-abroad**

# Help os ydych ar incwm isel

Os ydych ar incwm isel, efallai y gallwch gael:

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Budd-dal Tai, neu
- gostyngiad yn eich Treth Cyngor.

## Cymhorthdal Incwm

## Beth yw Cymhorthdal Incwm?

Mae Cymhorthdal Incwm ar gyfer pobl na allant weithio'n llawn amser ac nad oes ganddynt ddigon o arian i fyw arno.

## A allaf gael Cymhorthdal Incwm?

Gallwch gael Cymhorthdal Incwm os ydych:

- yn feichiog
- yn ofalwr
- yn rhiant unigol gyda phlentyn o dan 5 oed, neu
- yn sâl neu'n anabl (mewn rhai amgylchiadau).

Hefyd, rhaid:

- eich bod yn 16 oed neu drosodd ac o dan yr oedran cymhwyso ar gyfer Credyd Pensiwn
- bod gennych lai na £16,000 mewn cynilion
- eich bod yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos, ac
- yn byw ym Mhrydain Fawr.

Gallwch gael Cymhorthdal Incwm yn ychwanegol at rai budd-daliadau eraill yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Er enghraifft, os byddwch yn gymwys i gael Tâl Salwch Statudol, efallai y bydd hefyd gennych hawl i gael swm ychwanegol o Gymhorthdal Incwm.

Os yw eich partner yn gweithio o leiaf 24 awr yr wythnos, ni fyddwch yn debygol o gael Cymhorthdal Incwm.

Ni allwch gael Cymhorthdal Incwm os ydych yn astudio'n llawn amser ond mae rhai eithriadau. Gall cynghorydd ddweud mwy wrthych.

## Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ewch i:
**www.gov.uk/income-support**

Ffôn: **0800 055 6688**
Ffôn testun: **0800 023 4888**

## Credyd Pensiwn

## Beth yw Credyd Pensiwn?

Taliad di-dreth yw Credyd Pensiwn a gaiff ei ychwanegu at incwm wythnosol i leiafswm gwarantedig.

## A allaf gael Credyd Pensiwn?

Efallai y gallwch gael Credyd Pensiwn os:

- ydych wedi cyrraedd oedran cymhwyso Credyd Pensiwn
- ydych yn byw ym Mhrydain Fawr, ac
- os oes gennych incwm isel.

Mae dau fath o Gredyd Pensiwn y gallwch ei gael: Credyd Gwarantedig a Chredyd Cynilion. Gallwch gael un rhan neu'r ddwy ran.

Mae **Credyd Gwarantedig** yn ychwanegu at incwm wythnosol hyd at isafswm gwarantedig os ydych wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso. Efallai y gallwch gael mwy os oes gennych anabledd difrifol, cyfrifoldebau gofal neu gostau tai penodol.

Mae **Credyd Cynilion** i'r bobl hynny sydd wedi cynilo rhywfaint o arian ar gyfer eu hymddeoliad, fel cynilion neu ail bensiwn. Efallai y gallwch gael credyd pensiwn os ydych chi, (neu eich partner, os oes gennych un) yn 65 oed neu drosodd.

Gallwch gael gwybod pryd y byddwch yn cyrraedd oedran cymhwyso Credyd Pensiwn ar-lein.

Ewch i:
**www.gov.uk/calculate-state-pension**

## Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ewch i:
**www.gov.uk/pension-credit**

Ffôn: **0800 991 234**
Ffôn testun: **0800 169 0133**

### Beth os nad wyf yn ennill llawer o arian o'r gwaith?

### Credyd Treth Gwaith

Os ydych yn gweithio ond eich bod ar incwm isel, mae hyn yn ychwanegu at eich enillion hyd at lefel benodol.

Efallai y gallwch gael Credyd Treth Gwaith os ydych ar fudd-daliadau anabledd neu Lwfans Gofalwr ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

Gallwch naill ai weithio i chi eich hun neu i rywun arall.

### Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Ewch i:
**www.gov.uk/working-tax-credit**

Ffôn: **0300 200 1900**
Ffôn testun: **0345 300 3909**

## Help gyda chostau tai

Mae tri math o help y gallwch eu cael tuag at eich costau tai.

- Mae Budd-dal Tai yn eich helpu i dalu rhywfaint o'ch rhent.
- Gostyngiad mewn Treth Cyngor. Y dreth cyngor sy'n talu am y gwasanaethau y mae eich cyngor yn eu darparu. Mae'r swm rydych yn ei dalu yn dibynnu ar werth eich cartref.
- Mae cymorth ar gyfer llog morgais yn helpu tuag at daliadau llog morgais os ydych yn byw mewn eiddo rydych chi'n berchen arno, lle mae morgais yn weddill heb ei dalu.

### A allaf gael Budd-dal Tai neu ostyngiad mewn Treth Cyngor?

Efallai y gallwch gael Budd-dal Tai neu ostyngiad yn eich Treth Cyngor os ydych ar incwm isel a:

- bod gennych gynilion sy'n llai na £16,000, a
- bod yn rhaid i chi dalu rhent neu dreth cyngor.

Nid oes rhaid i chi fod yn cael unrhyw fudd-daliadau eraill i gael Budd-dal Tai neu ostyngiad mewn Treth Cyngor. Hyd yn oed os ydych yn gweithio a bod rhywfaint o gynilion gennych, efallai y gallwch gael help o hyd. Nid yw Budd-dal Tai yn talu tuag at forgeisi ac fel arfer nid yw'n cwmpasu taliadau gwasanaeth.

### Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Ewch i:
**www.gov.uk/find-your-local-council**

### A allaf gael cymorth ar gyfer llog morgais?

Efallai y gallwch gael cymorth ar gyfer llog morgais os oes gennych hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm.

Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/support-for-mortage-interest**

## Help gyda budd-daliadau a gwasanaethau eraill

Os ydych yn cael rhan symudedd Taliad Annibyniaeth Personol neu Lwfans Byw i'r Anabl, neu os ydych yn cael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, efallai y gallwch wneud cais am Fathodyn Glas. Efallai y gallwch gael pàs i deithio am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar-lein.

Ewch i:
**www.gov.uk/find-your-local-council**

Efallai y gallwch logi car, sgwter neu gadair olwyn drydanol drwy gynllun Motability. Er mwyn gwneud cais am gerbyd drwy'r cynllun hwn, rhaid eich bod yn cael naill ai:

- cyfradd uwch rhan symudedd Taliad Annibyniaeth Personol,
- cyfradd uwch rhan symudedd Lwfans Byw i'r Anabl, neu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Motability.

Ffôn:
**0800 093 1000**

Ewch i:
**www.motability.co.uk**

Efallai y gallwch gael gostyngiad, neu gael eich eithrio rhag talu treth car os ydych yn cael rhan symudedd Taliad Annibyniaeth Personol neu Lwfans Byw i'r Anabl.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar-lein.

Ewch i: **www.gov.uk/financial-help-disabled/vehicles-and-transport**

## Help ymarferol

I gael help ymarferol, gofynnwch i'ch gwasanaethau cymdeithasol lleol (neu'r adran gwaith cymdeithasol os ydych yn byw yn yr Alban). Gallai cymorth gynnwys y canlynol:

- cymorth yn y cartref' ar gyfer pethau fel glanhau, siopa a choginio prydau bwyd
- teclynnau cymorth arbennig neu addasiadau i'ch cartref
- canolfannau dydd i roi seibiant i chi
- gofal dydd os oes gennych blentyn
- dod o hyd i le arall i fyw os bydd angen i chi symud
- dod â phrydau bwyd i chi os ydych yn ei gweld hi'n anodd coginio, a
- cyngor ar drafnidiaeth.

## Costau galwadau

Roedd y costau’n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **0845** o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud a 15c am sefydlu’r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **03** o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud a 15c am sefydlu’r alwad. Fodd bynnag, mae galwadau i rifau 03 fel arfer wedi’u cynnwys yng nghost unrhyw gynllun galw a all fod gennych, felly gofynnwch i’ch darparwr gwasanaeth os codir tâl arnoch am y galwadau hyn.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Gallwch hefyd ofyn i ni eich ffonio yn ôl os byddwch yn poeni am gost yr alwad.

### Ffonau testun

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth leol un. Nid yw ein ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

## Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ym mis Tachwedd 2013. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a phensiynau ar-lein.

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau ewch i:
**www.gov.uk/browse/benefits**

I gael gwybodaeth am bensiynau ewch i:
**www.gov.uk/browse/working/state-pension**

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

(h) Hawlfraint y Goron
ISBN 978-1-78153-685-8
**DWP014W** | f1.0 (Ebrill 2014)